Dysgai Mrs. Ivory wniadwaith i'r merched a phan drawyd hi â'r parlys yn wraig canol oed, âi'r bechgyn hynaf i'w chyrchu i'r ysgol mewn *bath chair* er mawr ddifyrrwch a hwyl i ambell un mwy direidus na'i gilydd a'i rhuthrai ar hyd y ffordd rychiog.

Yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf yn hanes yr ysgol, 'roedd cynifer o fechgyn a merched yn gadael i weithio yn y gweithiau mwyn plwm ym mhen ucha'r cwm ag a âi'n weision a morynion ar ffermydd yr ardal. Dyma hefyd gyfnod yr ymfudo mawr pan adawai lawn cymaint o deuluoedd am 'Ferica ag am gymoedd glo Morgannwg.

O Ionawr hyd ddiwedd Ebrill 1902 gofelid am yr ysgol gan Mrs. Victoria J. Welch. Un pnawn yn nechrau mis Mawrth galwodd Thomas Darlington yr Inspector heibio

> ' . . . . and specially recommended the teaching of Welsh in the lower standards '.

Ar 6 Mai 1902 dechreuodd Miss Jane Jones ar dymor o chwarter canrif fel prifathrawes, ac ar 15 Ionawr 1904 daeth Miss Jane Harper i'w helpu gyda'r plant lleiaf ac arhosodd am yn agos i 40 mlynedd.

Yng nghofnodion Miss Jones clywir adleisiau hen gymdeithas a hen arferion megis pan roddid gŵyl i'r plant ar gais Syr Edward a Lady Pryse er mwyn i'r bechgyn ddilyn y cŵn llwynog ar ddiwrnod cynta'r tymor hela ; neu i bwnio perthi ar ddiwrnod saethu, neu i fynd i'r preimin troi yng Ngogerddan. Cedwid plant o'r ysgol i fynd i'r ffair wlanen yn Ffair Rhos ddiwedd Medi, i fynd i angladdau neu gyfarfodydd crefyddol ; i hau'r gerddi, i helpu gyda'r cynhaeaf, neu i hela tatw ar y ffermydd. Un o uchel wyliau'r plant ar hyd y blynyddoedd oedd cael mynd i de i Ogerddan.

Mor ddiweddar â 1905 sonnir am brynu llechi (nid llyfrau sgrifennu) i'r plant ; a lle gynt y golygai golli hanner diwrnod neu fwy o ysgol pan oedd raid mynd ar neges i'r Swyddfa Addysg, erbyn 1913 medrai Miss Jones ymffrostio

> ' I am compelled to go to town to the Education Office this morning . . . . . I shall not be absent more than half an hour as I am going in a motor car '.

Ei chyflog yn 1915 oedd £95, a thelid £35 y flwyddyn i'w chynorthwyydd.

Dilynwyd Miss Jane Jones gan Mr. Rees Jones ar 1 Gorffennaf 1927, ac yn ystod ei gyfnod ef o 36 mlynedd dygwyd naws fwy Cymreig i'r ysgol. Yn 1928, er enghraifft, dathlwyd Gŵyl Ddewi drwy gynnal Eisteddfod, ac am wythnos gyfan, am y tro cyntaf yn hanes yr ysgol, cyflwynwyd pob gwers drwy'r Gymraeg, ac ymhen blwyddyn derbyniwyd egwyddorion Adroddiad *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd.*